# FAINT Y MAE EICH OFFER TRYDANOL YN EI GOSTIO I'W RHEDEG?

National Energy Action yw'r elusen genedlaethol sy'n eich helpu gyda'ch biliau ynni. Mae'r daflen hon yn eich helpu i gyfrifo faint y mae offer trydanol fel peiriannau golchi yn ei gostio i'w defnyddio.




Gallai deall pa offer yn eich cartref sy'n defnyddio'r mwyaf o drydan eich helpu i arbed arian. Mae'r swm y mae'n ei gostio i redeg offer trydanol yn dibynnu ar dri pheth:

1 **Faint o bŵer sydd ei angen arnynt** (maint y pŵer)

2 **Y pris a godir arnoch fesul uned o drydan** (kWh)

3 **Am ba mor hir y mae'r offer ymlaen** (defnydd)


Mae'r daflen hon yn ganllaw bras i gymharu costau offer dros gyfnod o awr, gan eich helpu i weld y rhai sy'n defnyddio'r mwyaf o drydan fel y gallwch addasu sut rydych yn eu defnyddio. Os ydych chi'n dal i gael trafferth, ffoniwch **Gwasanaeth Cyngor a Chefnogaeth Ynni** National Energy Action **ar 0800 304 7159** neu ewch i **www.nea.org.uk/get-help**.



## MEDDYLIWCH YN GLYFAR

**Mae gan fesuryddion clyfar sgrîn ynni cartref, a all eich helpu i gadw golwg ar faint o ynni y mae eich offer yn ei ddefnyddio. Gweler ein taflen neu ewch i www.nea.org.uk/resources.**

## CILO BETH?



**Felly beth yw cilowat?** Mae maint y pŵer ar gyfer offer trydanol yn cael ei fesur mewn **watiau (W)** neu **gilowatiau (kW)**.
Mae cilowat yn **1000 wat**.
Os yw **darn o offer 1 kW** (fel y gwresogydd ffan yma) ymlaen am **1 awr** bydd yn defnyddio **1 kWh** (cilowat awr) o drydan.
Mae unedau trydan yn cael eu mesur mewn **kWh** ac yn cael eu cyfrif drwy ein mesuryddion trydan.
Dangosir y pris am uned o drydan mewn **ceiniogau y kWh** a dyna'r hyn y mae cyflenwyr ynni yn ei ddefnyddio i'n bilio ni.
Ar fesurydd rhagdalu (PPM/mesurydd ychwanegu credyd) **bydd eich credyd yn rhedeg i lawr gyda phob kWh sy'n cael ei ddefnyddio.**

# Y CAP AR BRISIAU YNNI

**NID YW'R cap ar brisiau ynni yn gap ar faint y byddwch chi'n ei dalu** am yr ynni rydych chi'n ei ddefnyddio. Mae'n gap ar yr uchafswm y gall cyflenwyr ei godi arnom fesul uned o ynni.
**Mae'n cael ei newid bob tri mis** gan Ofgem, rheoleiddiwr y diwydiant ynni.
**Gallwch chi ddod o hyd i'ch pris cyfredol am uned o drydan ar eich bil ynni** neu drwy gysylltu â'ch cyflenwr. Yn ôl y gyfraith mae'n rhaid iddynt roi'r wybodaeth hon i chi.
**Os oes gennych fesurydd rhagdalu** ni fyddwch yn cael bil ynni yn aml, felly cysylltwch â'ch cyflenwr neu defnyddiwch wefannau fel Ofgem, MSE neu Cyngor ar Bopeth i gymharu prisiau ynni a chael yr wybodaeth ddiweddaraf. Efallai y bydd asiantaeth cyngor ynni hefyd yn gallu helpu gyda hyn.

# CYFRIFO COSTAU RHEDEG EICH OFFER

Drwy ddeall maint y pŵer, cyfradd fesul uned o drydan eich cyflenwr a chan ddefnyddio'r fformiwla syml a ganlyn, gallwch weld faint mae eich offer yn ei gostio i'w rhedeg.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cost redeg** (ceiniogau yr awr) | = | **Maint y pŵer** (Watiau) X **Cyfradd fesul uned o drydan** | ÷ | **1000** |

**Os ydych eisiau gyfrifo'r gost fesul munud, rhannwch y canlyniad â 60!**

Wrth gwrs, dim ond am ychydig funudau y bydd rhai eitemau ymlaen a bydd eraill ymlaen am nifer o oriau felly bydd y costau gwirioneddol yn amrywio.
Am fod y **cap ar brisiau'n** newid yn rheolaidd, gwahaniaethau rhwng gwneuthurwyr a modelau, oedran yr offer a'r ffaith bod pethau fel gwresogyddion, poptai, peiriannau golchi a sychwyr dillad yn defnyddio gwahanol symiau o ynni wrth iddynt redeg, gall fod yn anodd rhoi union gostau.
Nid yw maint pŵer uwch bob amser yn golygu cost uwch.
E.e. efallai bod gan eich tegell faint pŵer uchel ond mae'n debygol na fydd ymlaen am awr!
Gall dewis eitemau trydanol sy'n **defnyddio ynni'n effeithlon** helpu. 'A' yw'r mwyaf effeithlon. Chwiliwch am labeli graddio (ar y dde).



Mae'r tabl yn dangos costau cyfartalog defnyddio offer. Defnyddiwch ef i weld ble y gallech wneud arbedion.

| Offer | Maint pŵer (watiau)* | Cost yr awr |
|---|---|---|
| **Cawod Trydan** | 7,000 – 10,500 | £1.91 i £2.87 |
| **Gwresogydd Dŵr** (tariff cyfradd sengl) | 3,000 | 82c |
| **Gwresogi Atodol** (e.e. Gwresogydd Ffan) | 1,000 – 3,000 | 27c i 82c |
| **Tegell** | 2,500 – 3,000 | 68c i 82c |
| **Gril/Popty** | 2,000 – 2,400 | 55c i 66c |
| **Pentan** (fesul cylch) | 1,000 – 2,000 | 27c i 55c |
| **Haearn Smwddio** | 1,000 – 3,000 | 27c i 82c |
| **Microdon** | 700 – 1,400 | 19c i 38c |
| **Sugnwr Llwch** | 600 – 900 | 16c i 25c |
| **Popty Araf** | 150 – 300 | 4c i 8c |
| **Oergell-Rhewgell** | 100 – 300 | 2c i 8c |
| **Peiriant Gemau** | 100 – 200 | 3c i 5c |
| **Teledu LCD** | 25 – 175 | 1c i 5c |
| **Bwlb GLS Traddodiadol** | 40 – 100 | 1c i 3c |
| **Bwlb GLS LED** | 6 – 10 | Llai na 1/2c |
| **Llwybrydd Band Eang** | 5 – 15 | Llai na 1/2c |
| **Ffan Echdynnu** | 5 – 10 | Llai na 1/4c |
| **Ffôn/Llechen** (gwefru) | 2 – 15 | Llai na 1/2c |

Mae peiriannau golchi a sychwyr dillad fel arfer yn defnyddio symiau gwahanol o ynni dros gyfnod y golch.
Er y gall gosodiadau ECO gymryd mwy o amser i olchi llwyth, maent fel arfer yn defnyddio dŵr oerach. Felly rydych chi'n arbed arian ar gynhesu.

| Offer | Maint pŵer (watiau)* | Cost y golch |
|---|---|---|
| **Peiriant Golchi** | 1,000 – 2,400 | 14c i 27c |
| **Sychwr Dillad** (cyddwyso / awyru) | 1,500 – 2,500 | £1.21 i £1.56 |

National Energy Action yw'r elusen tlodi tanwydd genedlaethol, sy'n helpu pawb i gael cartref cynnes, diogel ac iach.
Ewch i www.nea.org.uk. © National Energy Action 2024, rhif cofrestru elusen 290511.
Cwmni cyfyngedig trwy warant. Cofrestredig yng Nghymru a Lloegr Rh: 01853927.